BWRDD DIOGELU CANOLBARTH A GORLLEWIN CYMRU

# HYFFORDDIANT

Diogelu plant ac oedolion

## Deddf Galluedd Meddyliol 2005 - Seminar

**Wythnos Diogelu Genedlaethol 2025**

**Dydd Mercher 12 Tachwedd 2025**

**2:00pm - 3.30pm**

**Bydd y seminar hon yn ailedrych ar elfennau allweddol Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a sut y dylid cymhwyso'r rhain mewn ymarfer diogelu mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, cyd-destunau a senarios. Bydd yn archwilio heriau gweithio gydag unigolion lle mae angen cymhwyso Deddf Galluedd Meddyliol 2005, gan gynnwys meysydd amwys o ansicrwydd ac ystyriaethau allweddol wrth gynnal asesiadau Deddf Galluedd Meddyliol.**

## Cynhelir gan Mark Evans

**Ar hyn o bryd mae Mark yn gweithio fel rhan o'r Tîm Dysgu a Datblygu yng Nghyngor Sir Caerfyrddin. Cymhwysodd Mark fel gweithiwr cymdeithasol ym 1988 ac roedd hefyd yn ymarfer fel Gweithiwr Cymdeithasol Cymeradwy o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983. Ymunodd Mark â Sir Gaerfyrddin yn 2001 fel Uwch Brif Swyddog Iechyd Meddwl. Tra'r oedd yn Uwch Swyddog, roedd yn gyfrifol am weithrediad cychwynnol Deddf Galluedd Meddyliol 2005, ac yn ddiweddarach swyddogaethau'r Corff Goruchwylio o dan y Mesurau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS).**

***Cynulleidfa Darged:*** **Gweithwyr Cymdeithasol, Rheolwyr, Swyddogion Heddlu, Gweithwyr Iechyd Proffesiynol, Nyrsys Ardal, Nyrsys Seiciatrig Cymunedol, Rheolwyr Cartrefi Gofal a Nyrsio, Rheolwyr Comisiynu a Sefydliadau'r Trydydd Sector**

***Mae'n bodloni Canlyniadau Dysgu ar gyfer grwpiau staff C a D o'r***

***Safonau a Fframwaith Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol***

**SEMINAR BYW MICROSOFT TEAMS**

**I archebu ewch i: https://forms.office.com/e/106KGASCqM**
**neu sganio'r cod QR**

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: 31 Hydref 2025**